



Government
Equalities Office

Putting equality at the heart of government

Priodas sifil gyfartal: ymgynghoriad

Mawrth 2012

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	1
Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	2
Crynodeb Gweithredol	3
Cynigion yr ymgynghoriad:	7
Priodas	7
Partneriaethau sifil	11
Cydnabyddiaeth o ryw	14
Materion canlyniadol	16
Atodiad A – Rhestr o awdurdodaethau sydd wedi cyflwyno priodas ar gyfer cyplau un rhyw	19
Atodiad B – Rhestr o gwestiynau ymgynghori	20

Rhagair y Gweinidog

Yn ystod ymarfer gwranddo a gyflawnwyd yn 2010 ar ganiatáu i bartneriaethau sifil ddigwydd ar eiddo crefyddol, fe glywsom sylwadau gan nifer oedd am gael mynediad cyfartal at briodas i gyplau un rhyw. Dadleuodd rhai bod cael dwy ddarpariaeth wahanol ar gyfer cyplau un rhyw a'r rhyw arall yn bytholi camddechongli a gwahaniaethu. Mae cyplau un rhyw nawr yn derbyn mynediad at hawliau cyfreithiol cyfatebol, heblaw am y gallu i fod yn briod a dweud eu bod yn briod. Ni chredwn fod hyn yn dderbyniol.

Roedd cyflwyno partneriaethau sifil yn 2005 yn gam arwyddocaol a phwysig ymlaen i gyplau un rhyw o ran sicrhau bod eu hymroddiad i'w gilydd yn cael ei gydnabod yn ôl y gyfraith ar yr un sail â chyplau rhyw arall; am y tro cyntaf roedd cyplau yn gallu sicrhau hawliau, amddiffyniad a chyfrifoldebau pwysig.

Rydym yn cydnabod nad yw'r ymrwymiad personol a wneir gan gyplau un rhyw pan fyddant yn mynd i bartneriaeth sifil yn ddim gwahanol i'r ymrwymiad a wneir gan gyplau rhyw arall pan fyddant yn priodi. Ni chredwn y dylai gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn priodi barhau. Yn syml, nid yw'n iawn y dylid gwrthod yr hawl i gwpwl sy'n caru ei gilydd ac eisiau ffurfioli eu hymrwymiad i'w gilydd i briodi.

Dyna pam ein bod, heddiw, yn lansio'r ymgynghoriad hwn i geisio eich barnau ar sut y gallwn gael gwared ar y gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn cael priodas sifil mewn modd sy'n gweithio i bawb. Rydym yn glir na wneir unrhyw newidiadau i sut mae sefydliadau crefyddol yn diffinio a gweinyddu priodasau crefyddol ac rydym yn glir y byddwn yn cadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau un rhyw.

Nid yw hyn yn ymwneud â'r Llywodraeth yn ymyrryd â bywydau phobl, mae'n ymwneud â darparu dewis yn ein cymdeithas fodern. Yn syml, os yw ymrwymiad a phriodas yn beth da ni ddylem gyfyngu cyplau un rhyw i briodas sifil yn unig.



Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS
Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog Menywod
a Chydraddoldeb



Lynne Featherstone AS Gweinidog
Cydraddoldeb

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Pwnc	<p>Mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich barnau ar sut i ddarparu mynediad cyfartal i briodas sifil ar gyfer cyplau un rhyw.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar y mater penodol hwn ac nid yw'n ystyried diwygiadau ehangach i briodas. Felly nid yw'n ystyried unrhyw ddiwygiadau i briodas grefyddol. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn edrych ychwaith ar bartneriaethau sifil rhyw arall.</p>
Cwmpas daearyddol	Cymru a Lloegr yn unig
Asesiad effaith	Mae asesiad effaith o'r cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y r ymgynghoriad hwn ar gael ar wahân ar wefan y Swyddfa Gartref
Cynulleidfa	<p>Mae wedi ei anelu at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • aelodau o'r cyhoedd – yn arbennig y rhai sydd mewn priodas neu bartneriaeth sifil ar hyn o bryd neu'r rhai sydd eisiau cofrestru eu perthynas yn y dyfodol; • sefydliadau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; • sefydliadau crefyddol; • awdurdodau lleol, yn cynnwys cofrestryddion sy'n gyfrifol am gyflawni seremonïau priodas sifil; • sefydliadau gyda diddordeb mewn teuluoedd a pherthnasau; • croesawir sylwadau gan bob parti arall sydd â diddordeb hefyd.
Hyd	12 wythnos. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 14 Mehefin 2012
Manylion cyswllt	<p>Cwblhewch y <u>ffurflen ymateb</u> ar-lein</p> <p>Neu gallwch anfon eich ymateb mewn e-bost i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn at: <u>equalcivilmarriage@geo.gsi.gov.uk</u></p> <p>Neu ysgrifennwch atom ni:</p> <p>Ymatebion ymgynghoriad priodas sifil gyfartal Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth 3rd Floor Fry 2 Marsham Street SW1P 4DF</p> <p>Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu'ch bod eisiau'r ymgynghoriad hwn ar ffurf amgen, anfonwch e-bost at <u>equalcivilmarriage@geo.gsi.gov.uk</u> neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad uchod.</p>
Camau nesaf	<p>Bydd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth ar y ffordd ymlaen yn cael ei gyhoeddi maes o law wedi cau'r ymgynghoriad hwn.</p> <p>Bydd ymateb y Llywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad hwn, ac yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o'r pwyntiau a wnaed yn ymatebion yr ymgynghoriad, nid y nifer o ymatebion a dderbynnir. Fodd bynnag, ni fydd pwyntiau a godir mewn ymatebion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad a'r cwestiynau ymgynghori o reidrwydd yn cael eu hystyried.</p>

Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn ynglŷn â sut y gellir codi'r gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn priodi trwy seremoni sifil. Er y bydd nifer o'r materion a chwestiynau a amlinellir yn y ddogfen hon yn ymwneud â'r unigolion a sefydliadau hynny a fydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan hyn, rydym yn cydnabod ei fod o ddiddordeb ehangach i bawb. Felly rydym yn ceisio ystod eang o farnau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar beth yw'r ffordd orau o godi'r gwaharddiad hwn.
- 1.2 Dan ddeddfwriaeth bresennol, dim ond rhwng cwpl o ddau ryw y gellir cynnal priodas, h.y. gŵr a gwraig. Gellir cynnal priodas naill ai ar eiddo crefyddol trwy seremoni grefyddol, neu ar eiddo seciwlar (anghrefyddol) trwy seremoni sifil.
- 1.3 Dim ond cwpl un rhyw sy'n gallu cael partneriaeth sifil h.y. naill ai gŵr a gŵr neu fenyw a menyw, a dim ond trwy seremoni sifil y gellir ei chyflawni. Gall partneriaeth sifil ddigwydd ar eiddo seciwlar, ond gellir hefyd ei chynnal ar eiddo crefyddol, os yw'r sefydliad crefyddol dan sylw wedi caniatáu i hyn ddigwydd (ond rhaid i'r seremoni barhau i fod yn un sifil). Ym mhob achos, rhaid i gofrestrriad partneriaeth sifil fod yn un seciwlar (anghrefyddol).
- 1.4 Yn ystod ymarfer gwrando a gynhaliwyd yn hydref 2010 ar y camau nesaf ar gyfer partneriaethau sifil, nododd y Llywodraeth awydd i edrych ar wneud mynediad ar briodas sifil i gyplau un rhyw yn gyfartal. O ganlyniad cafwyd ymroddiad i weithio gyda phawb gyda diddordeb yn y mater ar sut y gellid datblygu deddfwriaeth. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y ffordd orau o gyflawni hyn.
- 1.5 O'r trafodaethau hyn, daeth yn amlwg mai'r mater oedd angen ei ystyried ar unwaith oedd galluogi cyplau un rhyw i gael priodas sifil. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddwyn ymlaen priodas sifil ac eisiau ymgynghori'n eang ar y ffordd orau o wneud hyn. Felly, nid yw'r ymgynghoriad yn edrych ar ddiwygio partneriaethau sifil, er enghraifft, agor partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall.
- 1.6 Wrth ddatblygu'r papur ymgynghori hwn, mae Gweinidogion a swyddogion wedi cwrdd ag ystod o sefydliadau yn cynnwys grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a sefydliadau crefyddol ac anghrefyddol i glywed barnau a deall arwyddocâd unrhyw un o'r cynigion ar y mater hwn.
- 1.7 Rydym wedi gwrando ar y sefydliadau crefyddol a fynegodd bryder ynglŷn ag ailddiffinio priodas grefyddol. Rydym yn ymwybodol bod rhai sefydliadau crefyddol sy'n gweinyddu priodasau trwy seremoni grefyddol yn credu mai dim ond rhwng gŵr a gwraig y gellir cael priodas. Dyna pam bod yr ymgynghoriad hwn wedi ei gyfyngu i ystyriaeth o briodas sifil ac nad yw'n gwneud unrhyw gynigion i newid y ffordd y gweinyddir priodasau crefyddol. Ni fydd yn gyfreithiol bosibl dan y cynigion hyn i sefydliadau crefyddol weinyddu priodasau crefyddol i gyplau un rhyw. Felly ni fydd unrhyw reidrwydd na gofyniad i sefydliadau crefyddol na gweinidogion crefydd wneud

hyn. Bydd hefyd yn bosibl i gwpl un rhyw gael priodas sifil ar eiddo crefyddol. Dim ond rhwng gŵr a gwraig fyddai priodasau ar unrhyw fath o eiddo crefyddol yn gyfreithiol bosibl o hyd.

- 1.8 Nid yw priodas sifil i gyplau un rhyw yn syniad newydd ac mae nifer gynyddol o wledydd eraill yn cyflwyno cydnabyddiaeth gyfreithiol o berthnasau un rhyw ar yr un sail ag ar gyfer perthnasau rhyw arall. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o'r darpariaethau sydd ar gael dramor.

Egwyddorion dros newid:

- 1.9 Bwriada'r Llywodraeth ddelio â'r materion canlynol yn rhan o'r gwaith hwn:

- i. **I ddiddymu'r gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn gallu priodi trwy seremoni sifil.** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod yr ymrwymiad a wnaed rhwng dyn a dyn, neu fenyw a menyw mewn partneriaeth sifil yr un mor arwyddocaol â'r ymrwymiad rhwng dyn a menyw mewn priodas sifil. Os ydym yn cydnabod bod yr ymroddiad yn un arwyddocaol, mae'n briodol bod Llywodraeth yn darparu cyplau â'r un cyfle i gydnabod yr ymrwymiad hwnnw o fewn sefydliad gwerthfawr priodas. Mae yn sawl gwahaniaeth rhwng priodasau sifil a phartneriaethau sifil fel y nodir isod (paragraff 1.10). Mae'r ymgynghoriad hwn nid yn unig yn ymwneud â'r gwahaniaethau hynny, ond mae hefyd yn glŷn â'r egwyddor o beidio gwahaniaethu mewn seremonïau priodas sifil rhwng cyplau un rhyw a rhyw arall.
- ii. **I beidio gwneud unrhyw newidiadau i'r modd mae sefydliadau crefyddol yn gweinyddu priodasau** h.y. bydd priodasau a weinyddir trwy seremoni grefyddol ar eiddo crefyddol yn parhau i fod yn gyfreithiol bosibl rhwng dyn a menyw yn unig. Nid yw'r Llywodraeth yn ceisio newid sut mae sefydliadau crefyddol yn diffinio priodas sifil a byddai unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol yn glir na allai unrhyw sefydliad crefyddol gynnal seremoni priodas grefyddol ar eiddo crefyddol ar gyfer cyplau un rhyw.
- iii. **I ganiatáu i bobl drawsrywiol newid eu rhyw gyfreithiol hwb orfod terfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil bresennol.** Bydd cael gwared ar y rhwystr ar gyplau un rhyw priod yn galluogi un partner, am y tro cyntaf erioed, i newid eu rhyw gyfreithiol hwb orfod terfynu eu priodas yn ffurfiol. Gall hyn fod yn drallodus i'r cyplau hynny sydd eisiau parhau i fod yn briod ond nad ydynt yn gallu ar hyn o bryd am nad yw'n gyfreithiol bosibl i gyplau un rhyw fod yn briod. Yn yr un modd, byddai cyplau sydd mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd yn gallu trosi eu partneriaeth i briodas, yn hytrach na diddymu eu partneriaeth sifil yn ffurfiol.

Sefyllfa gyfredol:

1.10 Er y cynlluniwyd partneriaethau sifil i ddarparu hawliau a chyfrifoldebau cyfatebol i briodas, mae yna ambell wahaniaeth, er enghraifft:

- Mae partneriaeth sifil a phriodas yn ddwy gyfundrefn gyfreithiol cwbl wahanol gyda gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar gyfer pob un. Ni all partneriaid sifil alw eu hunain yn briod i ddibenion cyfreithiol ac ni all cyplau priod alw eu hunain yn bartneriaid sifil i ddibenion cyfreithiol. Golyga hyn wrth wneud datganiad o statws priodasol i gyflogwr, awdurdod cyhoeddus neu sefydliad arall, yn aml bydd unigolyn sydd naill ai'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn datgan eu tueddfryd rhywiol ar yr un pryd;
- Gweinyddir priodasau sifil trwy ddweud ffurf ragnodedig o eiriau tra ffurfir partneriaethau sifil trwy lofnodi'r gofrestr yn unig – nid oes angen yngan unrhyw eiriau;
- Mae gan gyplau priod a phartneriaid sifil hawliau a chyfrifoldebau tebyg ond mae rhai gwahaniaethau o ran cymhwyster ar gyfer rhai hawliau pensiwn a chyfreithiau yn ymwneud â godineb ac anghyflawniad a theitlau cwrteisi;
- Ar hyn o bryd dim ond naill ai trwy seremoni grefyddol neu seremoni sifil y gellir cynnal priodas. Dim ond trwy seremoni sifil y gellir cyflawni partneriaethau sifil, er y bu'n bosibl ers Rhagfyr 2011 i gyplau gael cynnal eu cofrestriad partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol, (er bod yn rhaid i'r cofrestriad ei hun barhau i fod yn seciwlar). Mae hyn yn ddarpariaeth cwbl wirfoddol ar gyfer grwpiau ffydd sydd eisiau cynnal cofrestriadau partneriaeth sifil ac nad yw'n codi'r gwaharddiad ar gynnwys unrhyw elfennau crefyddol yn rhan o gofrestrriad y bartneriaeth sifil ei hun. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i gadw'r ddarpariaeth hon i alluogi cyplau un rhyw i barhau i gael cofrestriad partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol os yw'r sefydliad crefyddol hwnnw wedi cydsynio.

Crynodeb o'r cynigion:

1.11 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bwriada'r Llywodraeth:

- alluogi cyplau un rhyw i briodi trwy seremonïau sifil.
- gadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau un rhyw, yn cynnwys y gallu i gofrestru partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol (ar sail wirfoddol gan gadw'r gwaharddiad ar gynnwys unrhyw elfennau crefyddol yn rhan o'r cofrestriad).
- ganiatáu i bobl drawsrywiol newid eu rhyw gyfreithiol hwb orfod terfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil bresennol.
- beidio gwneud unrhyw newidiadau i sut y gweinyddir priodasau sifil.

1.12 Dan y cynigion hyn, rydym yn bwriadu caniatáu'r dewis i gyplau mewn partneriaeth sifil 'drosi' eu partneriaeth sifil bresennol i briodas sifil.

Beth mae'r opsiynau hyn yn golygu mewn gwirionedd?

Pwy fydd wedi eu heffeithio	Sefyllfa gyfredol	Beth fyddai'r cynigion yn golygu
Cyplau rhyw arall	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyplau rhyw arall yn gymwys ar gyfer naill ai: <ol style="list-style-type: none"> priodas trwy seremoni sifil neu briodas trwy seremoni grefyddol. 	<ul style="list-style-type: none"> Ni argymhellir unrhyw newid.
Cyplau un rhyw	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyplau un rhyw ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer: <ol style="list-style-type: none"> partneriaeth sifil ar eiddo seciwlar cofrestrriad partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol (ar sail wirfoddol ar gyfer sefydliadau crefyddol) 	<ul style="list-style-type: none"> Byddai cyplau un rhyw yn gallu dewis: <ol style="list-style-type: none"> seremoni priodas sifil ar eiddo seciwlar cofrestrriad partneriaeth sifil ar eiddo seciwlar neu eiddo crefyddol Byddai cyplau mewn partneriaethau sifil presennol yn gallu trosi eu partneriaeth sifil i briodas. Ni fyddai cyplau yn gymwys ar gyfer seremoni briodas grefyddol ar eiddo crefyddol a thrwy fodd crefyddol.
Unigolion trawsrywiol a'u priod neu bartneriaid sifil	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i unigolion sy'n ceisio Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn er mwyn newid eu rhyw yn gyfreithiol derfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil bresennol er mwyn gwneud hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Gallai unigolion sy'n briod barhau i fod yn briod a chael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn; Gallai unigolion sydd mewn partneriaeth sifil wneud cais i drosi eu partneriaeth sifil i briodas ac yna cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn – ni allai unigolion barhau i fod mewn partneriaeth sifil gan y byddai hyn yn creu partneriaeth sifil rhyw arall nad yw dan ystyriaeth.

Cynigion ymgynghori

Ymgynghoriad:

- 2.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut y gallwn gael gwared ar y gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn llunio priodas sifil. Bydd yr ymgynghoriad yn edrych yn gyntaf ar beth mae priodas sifil yn golygu ac arwyddocâd hyn. Yna bydd yr ymgynghoriad yn ystyried y goblygiadau ar gyfer partneriaethau sifil a'r goblygiadau ar gyfer cydnabod rhyw.
- 2.2 Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried newidiadau i sut y gweinyddir priodasau crefyddol, na newidiadau ar bwy all gael cofrestriad partneriaeth sifil, er enghraifft, partneriaethau sifil ar gyfer cyplau rhyw arall, neu frawd neu chwaer.

Priodas:

Sefyllfa gyfredol:

- 2.3 Ar hyn o bryd, dywed cyfraith priodas mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cael priodas. Felly, ar hyn o bryd, ni all cyplau mewn perthynas un rhyw briodi.
- 2.4 Fodd bynnag, nid oes diffiniad cyfreithiol o briodas grefyddol a sifil. Diffinnir priodas yn ôl ble gellir ei gyflawni, yn hytrach na'i fod yn benodol yn grefyddol neu'n sifil. Ar hyn o bryd gellir cynnal priodas, fel y'i sefydlwyd dan Ddeddf Priodasau 1949, yn y dulliau canlynol:
 1. Priodas yn ôl defodau Eglwys Lloegr neu Eglwys Cymru (ni chynigir unrhyw newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn).
 2. Priodas yn ôl arferion Cymdeithas y Cyfeillion (y Crynwyr) (ni chynigir unrhyw newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn).
 3. Priodas yn ôl arferion crefydd Iddewig (ni chynigir unrhyw newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn).
 4. Mae pob crefydd arall wedi eu cynnwys dan briodas mewn adeilad cofrestredig ym mhresenoldeb unigolyn awdurdodedig (mae hyn yn briodas a gyflawnir trwy seremoni grefyddol ac ar eiddo crefyddol cofrestredig. Yn gyffredinol fe'i cynhelir gan weinidog ffydd ac mae wedi ei oruchwylio a chofrestru gan rywun awdurdodedig sydd wedi ei benodi gan y Cofrestrydd Cyffredinol fel rhywun sy'n gallu goruchwylio gweinyddiad priodas) (ni chynigir unrhyw newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn).
 5. Priodas mewn swyddfa gofrestru a gynhelir gan gofrestrydd arolygu ac a gofrestrir gan gofrestrydd. Ni all y seremoni hon gynnwys unrhyw elfennau crefyddol e.e. emynau (argymhellir bod hyn yn agored i gyplau un rhyw yn ogystal â chyplau rhyw arall).

6. Priodas ar eiddo cymeradwyedig (e.e. gwesty) a gynhelir gan gofrestrydd arolygu ac a gofrestrir gan gofrestrydd. Ni all y seremoni hon gynnwys unrhyw elfennau crefyddol ychwaith e.e. emynau (argymhellir bod hyn yn agored i gyplau un rhyw yn ogystal â chyplau rhyw arall).
7. Priodas ar gyfer y sawl sy'n gaeth i'r tŷ neu dan glo. Mae yna hefyd gyfleuster ar gyfer priodas dan drwydded Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer priodasau "gwely angau" (argymhellir bod hyn yn agored i gyplau un rhyw yn ogystal â chyplau rhyw arall).

Y cynigion:

- 2.5 Nid ydym yn argymhell unrhyw newidiadau i briodasau a gyflawnir dan 1 – 4 uchod. Golyga hyn, dan y gyfraith, mai dim ond os ydynt rhwng dyn a menyw y byddai priodasau a gyflawnwyd gan Eglwys Lloegr, y Crynwyr, Iddewon a phob sefydliad crefyddol arall (sydd wedi cofrestru eu heiddo crefyddol i gynnal priodasau) yn cael eu cydnabod.
- 2.6 Dim ond i briodasau a gyflawnir dan 5 – 7 uchod y mae'r newidiadau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori hon yn berthnasol h.y. cynigir y bydd cyplau un rhyw a rhyw arall yn gallu priodi yn yr un ffordd trwy seremoni sifil naill ai mewn swyddfa gofrestru neu mewn eiddo cymeradwyedig fel gwesty.
- 2.7 Unwaith y bydd cwpl wedi priodi naill ai trwy fodd cyfreithiol neu sifil, yna byddant yn cael eu trin fel priod i ddibenion cyfreithiol. Nid ydym yn cynnig creu dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer priodasau sifil a chrefyddol. Rydym yn cynnig bod y gyfraith yn glir y byddai priodasau a gyflawnir trwy seremoni sifil yn agored i bob cwpl ac mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cynnal priodas mewn seremoni grefyddol ac ar eiddo crefyddol.
- 2.8 Fel yr esboniwyd eisoes, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r ffordd orau o gael gwared ar y gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn cael priodas sifil, nid ar a ddylai neu na ddylai hyn ddigwydd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod yna nifer o farnau gwahanol ar y mater hwn ac fe hoffem ddeall barnau'r rhai sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda galluogi pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, i gael seremoni priodas sifil?

Cwestiwn 2: Esboniwch y rhesymau dros eich ateb. Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Cwestiwn 3: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffech gael seremoni priodas sifil?

Cwestiwn 4: Os ydych yn cynrychioli grŵp o unigolion sy'n nodi eu hunain fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffai'r rhai yr ydych yn eu cynrychioli gael seremoni priodas sifil?

Beth mae'r cynigion yn golygu:

Priodas grefyddol:

- 2.9 Ar hyn o bryd nid oes diffiniad cyfreithiol o briodas grefyddol na sifil er bod Deddf Priodasau 1949 yn glir ar ble gweinyddir priodas ac os yw'r seremoni wedi ei chynnal yn ôl defodau crefyddol penodol.
- 2.10 Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i adeiladu cymdeithas decach a sicrhau triniaeth deg a chyfle cyfartal i bawb, yn cynnwys pobl o bob crefydd. Gan mai dim ond ceisio codi'r gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn priodi trwy seremoni sifil ydym ni, byddem yn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol ar briodas sifil gyfartal yn glir na all priodasau a gyflawnir yn unol â defodau crefyddol ac ar eiddo crefyddol fod rhwng cwpl un rhyw. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw sefydliad, eiddo nac arweinydd crefyddol yn wynebu her gyfreithiol lwyddiannus am fethu â chyflawni priodas ar gyfer cwpl un rhyw, p'un a yw'r sefydliad, eiddo neu arweinydd crefyddol dan sylw yn perfformio priodasau ar gyfer cyplau rhyw arall. Ni fydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn yn galluogi cyplau un rhyw, yn gyfreithiol, i gael priodas trwy seremoni grefyddol ac ar eiddo crefyddol.
- 2.11 Ar gyfer Eglwys Lloegr, ar yr amod bod y cwpl yn gymwys i briodi, mae ganddynt yr hawl i briodi yn eu heglwys blwyf leol (neu mewn eglwys blwyf y mae ganddynt gswllt â hi). Ar hyn o bryd, dim ond i briodas rhwng dyn a menyw mae hyn yn berthnasol, wrth gwrs. Ni fyddai hyn yn newid gan nad ydym yn bwriadu codi'r gwaharddiad ar weinyddu priodasau crefyddol un rhyw ar eiddo crefyddol h.y. trwy seremoni grefyddol. Ni fyddai'n gyfreithiol bosibl i weinidog o Eglwys Lloegr i briodi cwpl un rhyw ar eiddo crefyddol a thrwy seremoni grefyddol. Felly ni fyddai yna unrhyw ddyletswydd ar weinidogion Eglwys Lloegr i briodi cyplau un rhyw. Byddai eu dyletswydd yn parhau i fod heb newid ac yn ymwneud â chyplau rhyw arall yn y plwyf perthnasol yn unig. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw weinidog Eglwys Lloegr wynebu her gyfreithiol lwyddiannus am wrthod cyflawni priodas grefyddol un rhyw.
- 2.12 Rydym hefyd yn ymwybodol bod athrawiaeth sawl ffydd yn grediniol mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cael priodas, ac mae'r gred hon wedi ei chynnwys yn nysgeidiaeth eu ffydd. Rydym yn glir na ddylai unrhyw un wynebu gweithredu cyfreithiol llwyddiannus am lefaru casineb neu wahaniaethu os ydynt yn pregethu eu cred mai dim ond rhwng dyn a menyw y dylid cael priodas.

Cwestiwn 5: Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig agor priodas grefyddol i gyplau un rhyw. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?

2.13 Ar gyfer cyplau un rhyw sydd eisiau cofrestru eu perthynas gerbron eu cynulliad, mae'r Llywodraeth yn bwriadu parhau gyda'r gyfundrefn bresennol ar gyfer cofrestrïadau partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol. Gweler hefyd paragraff 2.24 am fanylion pellach ar y mater hwn.

Diddymiad, ysgariad a dirymiad:

2.14 Mae yna ambell wahaniaeth yn y rhesymau dros allu terfynu priodas a phartneriaeth sifil, er enghraifft mae cyplau priod yn gallu nodi godineb fel tystiolaeth fod y briodas wedi chwalu y tu hwnt i adfer ond nid oes gan bartneriaid sifil y dewis hwn wrth ddiddymu eu partneriaeth sifil.

2.15 Wrth gael gwared ar y gwaharddiad ar briodas sifil rhwng cyplau un rhyw, ein bwriad yw galluogi pob agwedd o gyfraith priodas ac ysgariad presennol i fod yn berthnasol i gyplau un rhyw (ac eithrio darpariaethau ar seremonïau priodas crefyddol). Felly fe olyga hyn y bydd y rhesymau dros derfynu priodas yr un rhai ar gyfer pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw a waeth sut oeddynt wedi dod i'r briodas – p'un ai trwy seremoni grefyddol neu sifil.

2.16 Yn benodol, mae anghyflawniad a godineb ar hyn o bryd yn gysyniadau sydd wedi eu diffinio mewn cyfraith achos ac sy'n berthnasol i gyfraith priodas yn unig, ac nid cyfraith partneriaeth sifil. Fodd bynnag, wrth gael gwared ar y gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn cael priodas sifil, bydd y cysyniadau hyn yr un mor berthnasol i gyplau un rhyw a rhyw wahanol ac fe allai fod angen i gyfraith achos ddatblygu diffiniad, gydag amser, o ran beth sy'n cyfateb i gyflawni un rhyw a godineb un rhyw.

Partneriaethau sifil:

Sefyllfa gyfredol:

2.17 Roedd partneriaethau sifil yn gam pwysig ymlaen pan y'u cyflwynwyd dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu hawliau a chyfrifoldebau cyfatebol i briodas ac ers eu cyflwyno yn 2005, cafwyd dros 46,000 o bartneriaethau sifil. Rydym yn cydnabod bod nifer o bobl yn gwerthfawrogi partneriaethau sifil. Dyna pam fod y Llywodraeth yn bwriadu cadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau un rhyw yn y dyfodol.

Y cynigion:

2.18 Wrth i'r Llywodraeth symud ymlaen ar ganiatáu i gyplau un rhyw lunio priodas sifil, rydym hefyd yn ceisio cadw'r gyfundrefn bresennol o bartneriaethau sifil ar gyfer cyplau un rhyw yn unig.

Beth mae'r cynigion yn golygu:

Cadw'r ddarpariaeth ar gyfer partneriaethau sifil:

2.19 Mae partneriaethau sifil yn fecanwaith sefydledig i gydnabod perthnasau un rhyw ac felly mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cadw unwaith y bydd y gwaharddiad ar briodas sifil rhwng cyplau un rhyw wedi ei godi.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r opsiwn o bartneriaethau sifil unwaith y bydd priodas sifil ar gael i gyplau un rhyw?

Cwestiwn 7: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a'ch bod wedi ystyried gwneud ymrwymiad cyfreithiol i'ch partner a fyddai'n well gennych gael partneriaeth sifil neu briodas sifil?

2.20 Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried gwneud partneriaethau sifil yn agored i gyplau rhyw arall oherwydd nid oedden yn gallu nodi fod galw am hyn. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod yna nifer o farnau ar y mater hwn.

Cwestiwn 8: Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?

Trosi partneriaethau sifil i briodas:

2.21 Caniataodd partneriaethau sifil i nifer o gyplau un rhyw gofrestru eu perthynas yn ffurfiol, gan gael yr un hawliau, cyfrifoldebau ac amddiffyniad â'r rhai oedd ar gael i gyplau rhyw arall trwy briodas. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol pe byddai'r dewis o briodas wedi bod ar gael, y byddai rhai cyplau un rhyw o bosibl wedi llunio priodas, yn hytrach na phartneriaeth sifil.

2.22 Felly rydym yn cynnig y bydd cyplau yn gallu trosi eu partneriaeth sifil i briodas sifil pe byddent eisiau gwneud. Bydd y rhai nad ydynt eisiau trosi eu partneriaeth sifil yn gallu parhau i fod yn eu partneriaeth sifil a pheidio dioddef unrhyw nam cyfreithiol.

2.23 Rhagwelir y bydd y broses drosi yn gweithio fel a ganlyn:

- Er mwyn sicrhau trosiant a thystysgrif briodas newydd, byddai angen i'r cwpl wneud cais i'r awdurdod perthnasol, a thalu ffi fechan, ar sail adfer y gost;
- Os yw'r cwpl yn dymuno cael seremoni sifil i nodi creu eu priodas, yna gellid caniatáu hyn a chodi ffi ar sail adfer y gost;
- Ni fyddem yn disgwyl bod yna gyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas; a
- Ni fyddai'r trosiad yn cael ei ystyried i fod yn ddiwedd cyfreithiol un berthynas a dechrau un arall. Fe gedwir unrhyw hawliau, cyfrifoldebau a buddion sydd eisoes wedi cronni yn ystod partneriaeth sifil a byddai'n parhau o ddyddiad y bartneriaeth sifil wreiddiol (nid dyddiad y trosiant). Dyma ble byddai hawliau presennol ar gyfer partneriaid sifil yn cyd-fynd â hawliau, cyfrifoldebau a buddion priodas. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth parthed y sefyllfa bresennol o ran buddion yn yr adran materion dilynol.

Cwestiwn 9: Os ydych mewn partneriaeth sifil a hoffech fanteisio ar y polisi hwn o drosi eich partneriaeth sifil i briodas?

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yna gyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas?

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cael dewis i gael seremoni sifil ar drosi partneriaeth sifil i briodas?

Partneriaethau sifil ar eiddo crefyddol:

2.24 O 5 Rhagfyr 2011 bu'n bosibl i gyplau un rhyw gynnal eu cofrestrriad partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol y sefydliadau hynny sydd eisiau caniatáu i hyn ddigwydd. Mae hyn yn ddarpariaeth cwbl wirfoddol ac mae pob sefydliad crefyddol i benderfynu ei hun a ydynt eisiau gwneud cais i'w heiddo allu cynnal cofrestrriadau partneriaeth sifil neu beidio. Mae'r gwaharddiad yn parhau ar unrhyw elfennau crefyddol yn bod yn rhan o gofrestrriad partneriaeth sifil ei hun, er enghraifft, ni all unrhyw emynau na darlenniadau crefyddol fod yn rhan o'r cofrestrriad.

2.25 Roedd gweithredu'r ddarpariaeth hon yn gam pwysig ymlaen i hawliau lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac i ryddid crefyddol hefyd. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i gadw'r ddarpariaeth hon a pharhau i alluogi cofrestrriadau partneriaeth sifil i gael eu cynnal ar eiddo crefyddol.

2.26 Byddai hyn yn golygu y gallai cwpl un rhyw o ffydd ddewis naill ai:

- a. i gael seremoni priodas sifil (mewn swyddfa gofrestru neu westy er enghraifft) ac yna, os ydynt eisiau, gael bendith ar wahân gan eu sefydliad crefyddol neu eu heiddo crefyddol os oedd y sefydliad crefyddol hwnnw yn cytuno i wneud hynny, neu
- b. i geisio cael cofrestriad partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol os oedd y sefydliad crefyddol hwnnw yn cytuno i gynnal y cofrestriad ar eu heiddo.

Cydnabod rhyw:

Sefyllfa gyfredol:

- 2.27 Ar hyn o bryd, gall rhywun newid eu rhyw yn gyfreithiol trwy gael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn. Ar hyn o bryd ni ellir rhoi tystysgrif lawn i rywun sydd eisoes mewn priodas neu bartneriaeth sifil. Er mwyn cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn, rhaid i'r cwpl derfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil. Mae hyn am nad yw'r Deyrnas Unedig yn caniatáu priodas ar gyfer cyplau un rhyw na phartneriaethau sifil ar gyfer cyplau rhyw arall, felly byddai gweithred un person yn caffael rhyw arall yn trosi eu priodas i briodas un rhyw neu bartneriaeth sifil rhyw arall anghyfreithlon.
- 2.28 Er mai dim ond nifer fechan o bobl fydd wedi eu heffeithio gan hyn, ar gyfer pob trawsrywiol a'u priod sydd eisiau parhau i fod yn eu perthynas gyfreithiol, yn ddigon naturiol fe all y sefyllfa hon achosi cryn dipyn o drallod, yn arbennig felly i'r rhai sydd eisiau parhau i fod yn eu priodas neu bartneriaeth sifil bresennol. Yn ogystal, canlyniad orfod diweddu eu priodas neu bartneriaeth sifil i gwpl yw y gallai amharu ar eu cofnodion cyfraniadau ar gyfer pensiynau a budd-daliadau.

Y cynigion:

- 2.29 Yn rhan o'r ymgynghoriad ar gyflwyno priodas sifil gyfartal, rydym yn gweithio i sicrhau nad oes rhaid i bobl drawsrywiol derfynu eu priodas yn ffurfiol er mwyn newid eu rhyw yn gyfreithiol. Mae hyn yn golygu:
- Diddymu'r gwaharddiad ar gyplau un rhyw yn cael priodas sifil, a fyddai'n galluogi'r rhai sydd mewn priodas, ble mae unigolyn yn newid rhyw yn gyfreithiol, yn parhau i fod yn briod. Er enghraifft, pe byddai cwpl yn ddyn a menyw yn gyfreithiol ar adeg eu priodas a bod y fenyw yn ceisio newid ei rhyw yn gyfreithiol, ar hyn o bryd byddai'n rhaid i'r cwpl derfynu eu priodas hyd yn oed os oeddynt eisiau aros gyda'i gilydd. Fodd bynnag, dan y cynigion hyn, gallai'r fenyw newid ei rhyw yn gyfreithiol ac fe allai'r cwpl barhau i fod yn briod pe byddent eisiau.
 - Byddai'r rhai mewn partneriaeth sifil yn gallu gwneud cais i drosi eu partneriaeth sifil i briodas pe byddai'r cwpl am aros gyda'i gilydd pan fyddai un o'r cwpl yn gwneud cais i newid rhyw yn gyfreithiol;

Beth mae'r cynigion yn golygu:

- 2.30 Rydym yn ymwybodol dan rai amgylchiadau presennol y bydd cwpl priod wedi diweddu eu priodas a ffurfio partneriaeth sifil er mwyn i un partner gael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn. Gallai hyn gael effaith negyddol ar eu buddion pe byddai'r berthynas yn torri. Pe byddai'r cwpl hwn wedyn yn trosi eu partneriaeth sifil i briodas dan y cynigion hyn (ac felly'n adennill eu statws fel pâr priod), ni fyddem mewn sefyllfa i allu ailsefydlu eu cyfraniadau budd-daliadau neu hawliau o'r briodas wreiddiol. Ni fyddai'r polisi hwn yn cael effaith ôl-weithredol dan yr amgylchiadau hyn.
- 2.31 I'r rhai sy'n ceisio Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn, rydym yn cynnig na ddylai'r Panel Cydnabod Rhyw ystyried a oedd seremoni'r briodas yn un sifil neu grefyddol gan y byddai'n amhriodol i Banel Cydnabod Rhyw wahaniaethu rhwng unigolion ar sail y seremoni ar adeg y briodas. Felly rydym yn rhagweld y dylid trin unrhyw un sydd wedi priodi trwy seremoni grefyddol yn yr un modd â chwpl sydd wedi priodi trwy seremoni sifil.

Cwestiwn 12: Os ydych yn berson trawsrywiol priod, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra'n cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

Cwestiwn 13: Os ydych yn gymar i berson trawsrywiol, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra bod eich cymar yn cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

Materion ôl-ddilynol:

2.32 Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae yna nifer o faterion ôl-ddilynol mwy technegol a fydd angen ystyriaeth bellach. Rhestrir y materion hyn isod ynghyd â rhestr o hawliau a chyfrifoldebau na fydd wedi eu heffeithio gan y cynigion hyn.

Meysydd fydd angen ystyriaeth bellach:

2.33 Pensiynau'r wladwriaeth:

Sefyllfa bresennol – mae rheolau pensiwn y wladwriaeth yn wahanol o ran dynion a menywod priod. Pan gyflwynwyd partneriaethau sifil, penderfynwyd ystyried partneriaid sifil yr un peth â 'dynion priod' i ddibenion pensiwn y wladwriaeth.

Ystyriaeth – mae'r Adran Waith a Phensiynau ar hyn o bryd yn ystyried ar ba sail y dylid ymestyn y darpariaethau hyn i briodasau sifil cyfartal.

2.34 Buddion goroeswyr mewn cynlluniau pensiwn galwedigaethol:

Sefyllfa bresennol – gan mai dim ond yn 2005 y daeth partneriaethau sifil ar gael, ble fod cynllun pensiwn galwedigaethol yn darparu buddion goroeswr dewisol, dim ond hawliau a gronnwyd o'r dyddiad pan ddaeth Deddf Partneriaeth Sifil 2004 i rym y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu eu hystyried.

Ystyriaeth – mae hawliau ôl-weithredol yn parhau i fod yn broblem ble cyflwynir priodas sifil, ond mae'r Adran Waith a Phensiynau yn ystyried ar hyn o bryd a ddylid cadw'r ddarpariaeth hon yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac effeithiau ei ddiddymiad neu addasiad.

2.35 Prosesau gweinyddol ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil:

Sefyllfa bresennol – mae yna ambell wahaniaeth yn y prosesau a weithredir gan awdurdodau lleol ar gyfer partneriaethau sifil a phriodasau. Er enghraifft, dim ond manylion tadau cyplau all cofnodion priodas gynnwys, tra bod cofnodion partneriaethau sifil yn cynnwys gwybodaeth ar y fam a'r tad; a gall unrhyw gael mynediad at gofnodion priodas llawn, tra bod cyfyngiad rhannol ar gofnodion partneriaeth sifil (mae cyfeiriad y cwpl wedi ei dynnu i ffwrdd).

Ystyriaeth – byddai angen ystyried a ddylid newid yr wybodaeth ar gofnodion priodas.

2.36 **Cydnabyddiaeth ryngwladol:**

Sefyllfa bresennol – ni fydd gwledydd tramor o reidrwydd yn cydnabod priodasau un rhyw yn yr un modd nad ydynt o reidrwydd yn cydnabod partneriaethau sifil. Byddai'r Llywodraeth yn parhau i weithio i gynyddu cydnabyddiaeth ryngwladol o berthnasau un rhyw p'un a oedd hynny yn bartneriaeth sifil neu'n briodas sifil ar gyfer cyplau un rhyw.

Ystyriaeth – bydd angen ystyried a fyddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod perthnasau un rhyw o dramor fel naill ai priodas neu bartneriaeth sifil. Efallai y bydd hefyd angen ystyried y dull gorau o barhau i gofnodi'r perthnasau hynny sydd wedi eu cydnabod gan y Deyrnas Unedig fel priodas neu bartneriaeth sifil.

Bydd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad hefyd yn ystyried arwyddocâd yr ymgynghoriad hwn ar weinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil yn Llysgenadaethau a Chonsyliaethau'r Deyrnas Unedig.

2.37 **Datganoli:**

Sefyllfa bresennol – mae priodas yn fater a ddatganolwyd ac felly mae'r cynigion polisi a geir yn yr ymgynghoriad hwn yn cwmpasu Cymru a Lloegr yn unig.

Ystyriaeth – rydym yn ymwybodol o waith Llywodraeth yr Alban ar ystyried diwygiadau i briodas yn yr Alban. Byddwn yn ystyried arwyddocâd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr a'r Alban o ran cydnabod priodas ac/neu bartneriaethau sifil. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon.

2.38 **Deddfwriaeth arall:**

Sefyllfa bresennol – fe wyddom fod yna nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, a llenyddiaeth gan y Llywodraeth sy'n cyfeirio at fod priodas rhwng dyn a menyw.

Ystyriaeth – byddai'r rhain i gyd yn cael eu haddasu yn unol â'r newidiadau y byddai'r Llywodraeth yn wneud.

Materion na fyddai wedi eu heffeithio:

2.39 Dim newidiadau i, er enghraifft:

- hawliau treth a buddion
- hawliau rhianta
- rheolau mewnfudo i'r rhai sy'n dod i'r Deyrnas Unedig
- gallu sefydliadau crefyddol i bregethu a dysgu eu credoau ar y diffiniad o briodas

Cwestiwn 14: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y tybiaethau neu faterion a amlinellwyd yn y bennod hon ar effeithiau dilynol? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Costau:

2.40 Amcangyfrifwyd y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno priodas sifil gyfartal ac maent wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith sydd ynghlwm. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio sicrhau mesurau arbed costau ble bynnag fo'n bosibl.

2.41 Bydd yna gostau i gyplau un rhyw sydd eisiau priodas sifil, yn yr un modd ag y mae i gyplau rhyw arall ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn rhagweld cost fechan i drosi partneriaeth sifil i briodas sifil.

Cwestiwn 15: A ydych yn ymwybodol o unrhyw gostau neu fuddion sy'n bodoli naill ai i'r sector cyhoeddus neu preifat, neu unigolion, nad ydym wedi eu hystyried yn yr asesiad effaith? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Atodiad A

(Mae'r rhestr hon yn ôl dealltwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 15 Mawrth 2012)

Rhestr o awdurdodaethau sydd wedi cyflwyno priodas ar gyfer cyplau un rhyw:

Yr Ariannin	Norwy
Gwlad Belg	Portiwgal
Canada	De Affrica
Gwlad yr Iâ	Sbaen
Mecsico (Dinas Mecsico yn unig, ond cydnabyddir ledled Mecsico)	Sweden
Yr Iseldiroedd	Unol Daleithiau America (rhai taleithiau yn unig)

Rhestr o awdurdodaethau sydd wedi cyflwyno undebau un rhyw:

Andorra	Gwlad yr Iâ
Yr Ariannin (rhai rhannau o'r wlad yn unig)	Liechtenstein
Awstralia (mae union gyfreithiau yn amrywio o dalaith i dalaith)	Mecsico (rhai rhannau o'r wlad yn unig)
Awstria	Yr Iseldiroedd
Brasil	Seland Newydd
Canada (Nova Scotia, Québec)	Gogledd Iwerddon
Colombia (rhannu nwyddau)	Gweriniaeth Iwerddon
Gweriniaeth Tsiec	Yr Alban
Denmarc	Slofenia
Ecuador	De Affrica
Cymru a Lloegr	Y Swistir
Y Ffindir	Unol Daleithiau America (rhai taleithiau yn unig)
Ffrainc	Uruguay
Yr Almaen	Mae rhai awdurdodaethau yn cydnabod undebau sifil neu briodasau un rhyw o wledydd eraill, hyd yn oed os nad ydynt wedi sefydlu eu trefniadau eu hunain ar gyfer undebau llafur a phriodasau un rhyw.
Hwngari	

Atodiad B

Rhestr o gwestiynau ymgynghori:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda galluogi pob cwpwl, waeth beth yw eu rhyw, i gael seremoni priodas sifil?

Cytuno
Anghytuno
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 2: Esboniwch y rhesymau dros eich ateb. Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Cwestiwn 3: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffech gael seremoni priodas sifil?

Hoffwn
Na hoffwn
Ddim yn gwybod
Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 4: Os ydych yn cynrychioli grŵp o unigolion sy'n nodi eu hunain fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffai'r rhai yr ydych yn eu cynrychioli gael seremoni priodas sifil?

Hoffent
Na hoffent
Ddim yn gwybod
Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 5: Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig agor priodas grefyddol i gyplau un rhyw. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

Cytuno
Anghytuno
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r opsiwn o bartneriaethau sifil unwaith y bydd priodas sifil ar gael i gyplau un rhyw?

Cytuno
Anghytuno
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 7: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, a'ch bod wedi ystyried gwneud ymrwymiad cyfreithiol i'ch partner a fyddai'n well gennych gael partneriaeth sifil neu briodas sifil?

Partneriaeth sifil
Priodas sifil
Dim blaenoriaeth
Ddim yn gwybod
Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 8: Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?

Cytuno
Anghytuno
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 9: Os ydych mewn partneriaeth sifil a hoffech fanteisio ar y polisi hwn o drosi eich partneriaeth sifil i briodas?

Hoffwn
Na hoffwn
Ddim yn gwybod
Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yna gyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas?

Cytuno – ni ddylid cael cyfyngiad amser
Anghytuno – dylid cael cyfyngiad amser
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cael dewis i gael seremoni sifil ar drosi partneriaeth sifil i briodas?

Dylid, dylid cael dewis
Na, ni ddylid cael dewis
Ddim yn gwybod

Cwestiwn 12: Os ydych yn berson trawsrywiol priod, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra'n cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

Hoffwn

Na hoffwn

Ddim yn gwybod

Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 13: Os ydych yn gymar i berson trawsrywiol, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra bod eich cymar yn cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

Hoffwn

Na hoffwn


Ddim yn gwybod

Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i mi

Cwestiwn 14: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y tybiaethau neu faterion a amlinellwyd yn y bennod hon ar effeithiau dilynol? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Cwestiwn 15: A ydych yn ymwybodol o unrhyw gostau neu fuddion sy'n bodoli naill ai i'r sector cyhoeddus neu preifat, neu unigolion, nad ydym wedi eu hystyried? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).

Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn? Ymatebwch o fewn 1,225 o nodau (oddeutu 200 o eiriau).



Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth,
Y Swyddfa Gartref
3rd Floor Fry Building,
2 Marsham Street,
Llundain
SW1P 4DF

E-bost: equalcivilmarriage@geo.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7035 4848

ISBN: 978-1-84987-707-7
© Hawlfraint y Goron 2012